# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gymunedol Brynconin

Dyddiad yr arolygiad: 11/05/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar a chroesawgar lle mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn elwa o berthnasoedd cadarnhaol â staff a’u cyfoedion. Mae’r pennaeth ac arweinwyr yn rhoi pwyslais clir ar les, perthyn, Cymreictod a chynhwysiant. Mae hyn yn helpu’r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac i ymddwyn yn barchus wrth weithio a chwarae.

Dros amser, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau. Maent yn datblygu’u medrau llafar a darllen yn bwrpasol, ac mae llawer yn ysgrifennu’n briodol yn y Gymraeg a’r Saesneg. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ysgrifennu’n estynedig mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion hefyd yn datblygu medrau mathemategol priodol, ond nid ydynt yn cymhwyso’u medrau rhifedd yn ddigon aml mewn gweithgareddau ymarferol a heriol.

Mae staff yn cynllunio profiadau diddorol sy’n cyfoethogi dysgu disgyblion, gan gynnwys perfformio, gweithgareddau creadigol, gwaith cymunedol, chwaraeon ac eisteddfodau. Mae hyn yn cyfrannu at hyder disgyblion, eu balchder yn eu hysgol a’u hymdeimlad o berthyn i’w cymuned. Mae athrawon yn darparu adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw adborth ysgrifenedig yn arwain yn ddigon cyson at welliannau yng ngwaith disgyblion.

Mae staff yn cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn bwrpasol, ac mae’r cymorth hwn yn helpu llawer ohonynt i wneud cynnydd o’u mannau cychwyn. Mae gan ddisgyblion gyfleoedd gwerthfawr i leisio barn a chymryd cyfrifoldeb drwy’r Senedd a’r cabinetau gwahanol, sef pwyllgorau’r ysgol.

Mae arweinwyr wedi adnabod blaenoriaethau perthnasol. Er hyn, nid yw’r gwaith gwella bob amser yn dangos effaith ddigon clir ar safonau a chynnydd disgyblion.

Mae’r ysgol yn rhan o ffederasiwn gydag Ysgol Gymunedol Maenclochog.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Datblygu ymhellach y cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod profiadau dysgu yn herio disgyblion yn gyson a bod adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith.

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/07/2026